

Cwestiynau cyffredin am gwynion (Chwefror 2020)

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyflwyno cwyn?

Rhaid i'r heddlu/sefydliad ystyried y gŵyn a'i chofnodi. Rhaid cofnodi cwynion penodol yn ffurfiol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddi gael ei thrin yn ôl rheolau a chanllawiau penodol.

Bydd yr heddlu/sefydliad hefyd yn ystyried a oes angen cyfeirio'r gŵyn at yr IOPC. [Rhaid cyfeirio materion penodol atom ni.](#)

Bydd yr heddlu/sefydliad yn cysylltu â'r achwynydd ac yn esbonio sut fydd y mater yn cael ei drin.

Dwi wedi gwneud cwyn a heb glywed yn ôl gan yr heddlu. Beth fedra i ei wneud?

Gallwch ddisgwyl clywed gan yr heddlu/sefydliad perthnasol yn brydlon am eich cwyn. Os nad yw hyn wedi digwydd, dylech gysylltu â nhw am ddiweddariad.

Mae'r heddlu wedi cofnodi fy nghwyn. Beth sy'n digwydd nesaf?

Os bydd eich cwyn yn cael ei chofnodi, gwneir penderfyniad ynghylch y ffordd orau i'w datrys. Bydd difrifoldeb cwyn yn pennu sut y bydd yn cael ei datrys. O dan rai amgylchiadau, rhaid cyfeirio cwynion at yr IOPC. Efallai y byddwn yn goruchwyllo ymchwiliad yr heddlu i'r gŵyn (gelwir hyn yn ymchwiliad dan gyfarwyddyd). Yn yr achosion mwyaf difrifol, efallai y byddwn yn ymchwilio i'r gŵyn yn defnyddio ein hymchwilyddwr ein hunain.

Sylwer mai dim ond cwynion neu ddigwyddiadau difrifol penodol mae'r IOPC yn ymwneud â'u hymchwilio. Mae'r mwyafrif o gwynion yn cael eu hymchwilio gan yr heddlu dan sylw, gyda'r IOPC yn darparu swyddogaeth adolygiad/apêl dan amgylchiadau penodol.

A all yr IOPC ymyrryd os na fyddaf yn fodlon â'r ffordd y mae fy nghwyn yn cael ei thrin?

Nid yw'r IOPC yn ymwneud ag ymchwiliadau'r heddlu i gwynion. Mae hyn yn golygu na allwn ymyrryd wrth i ymchwiliad fynd yn ei flaen na rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu newid yr unigolyn sy'n gyfrifol am ymchwilio i'ch cwyn. Os oes gennych chi unrhyw geisiadau, sylwadau neu feirniadaeth am ymchwiliad parhaus gan yr heddlu, cysylltwch naill ai â'r ymchwilydd sy'n edrych i mewn i'ch cwyn neu rywun arall yn yr heddlu y cyflwynoch eich cwyn iddynt. Pan fydd eich cwyn wedi ei chwblhau, byddwch yn cael gwybod am eich hawl i ofyn am adolygiad neu apêl, a gyda phwy ddylech gysylltu.

A all yr IOPC ddarparu'r newyddion diweddaraf am fy nghwyn?

Nid yw'r IOPC yn ymwneud ag ymchwiliadau'r heddlu i gwynion. Os na fyddwch wedi clywed gan yr ymchwilydd sy'n edrych i mewn i'ch cwyn am fwy na 28 diwrnod, cysylltwch â'r heddlu am y newyddion diweddaraf.

Pam na wnaiff yr heddlu ymchwilio i'm cwyn nes y bydd yr achos llys cysylltiedig wedi'i gwblhau?

Os oes achos llys yn gysylltiedig â'ch cwyn yn yr arfaeth, mae'n bosibl y bydd yr heddlu yn dewis gohirio ymchwiliad i'ch cwyn nes y bydd yr achos llys wedi'i gwblhau. Weithiau fe elwir hyn yn 'subjudice' (sy'n golygu bod mater 'gerbron y llys'). Weithiau caiff ymchwiliadau i gwynion eu gohirio er mwyn peidio â pheryglu achos troseddol yn y dyfodol neu, pan fydd yn achos llys trwy reithgor, peidio â dylanwadu ar y rheithgor. Os mai chi yw'r unigolyn fydd yn destun i'r achos llys fe allech o bosib ildio eich hawl i ohirio'r ymchwiliad i'ch cwyn. Dylech ystyried cymryd cyngor cyfreithiol cyn gwneud hyn. O dan rai amgylchiadau, ar ôl ymgynghori â Gwasanaeth Erllyn y Goron, gallai'r heddlu barhau â'u penderfyniad i ohirio'r ymchwiliad i'ch cwyn er nad ydych am i hynny ddigwydd. Os caiff yr ymchwiliad i'ch cwyn ei ohirio, dylech gysylltu â'r heddlu dan sylw i ailgychwyn eich cwyn ar ôl i'r achos llys gael ei gwblhau.

Mae'r heddlu wedi dweud wrtha i nad ydynt am ymchwilio i'm cwyn. Beth fedra i ei wneud?

Os yw'r heddlu neu gorff plismona lleol wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch cwyn, byddant yn rhoi gwybod i chi, ac yn esbonio eich hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn. Un enghraifft o bryd y gallai'r heddlu benderfynu gwneud hyn yw os gwnaethpwyd cwyn fwy na 12 mis ar ôl y digwyddiad y gwneir cwyn amdano ac nad oes rheswm da am yr oedi.

Enghraifft arall o sefyllfa ble gallai heddlu wneud hyn yw os bydd yr achwynydd yn gwrthod cydweithredu ag ymholiadau'r ymchwilydd, ac felly yn atal ymchwiliad ystyrllon.